NHS
Blood and Transplant

# Beth am siarad am...

# Ymateb i apêl ar y cyfryngau cymdeithasol

### Gwybodaeth i ddarpar roddwyr

Cafwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i apelio am roddwr aren byw iddynt eu hunain neu ar ran aelod o'r teulu neu ffrind. Cyn ymateb i apêl o'r fath, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y wybodaeth ar **www.organdonation.nhs.uk/become-a-living-donor** ac wedi ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- Mae'n bosib fod y timau trawsblannu rhoddwyr byw yn derbyn llawer o ymholiadau ar gyfer yr un apêl. Mae yna broses i ddewis y darpar roddwr aren mwyaf addas. Os na chewch eich dewis i fod yn ddarpar roddwr ar gyfer y sawl a wnaeth yr apêl, byddem yn eich annog i ystyried, yn lle hynny, rhoddi aren i rywun arall sydd ar y rhestr aros.
- Peidiwch, os gwelwch yn dda, â chysylltu'n uniongyrchol gyda'r derbynnydd na'r teulu – caiff y broses ei rheoli drwy'r tîm trawsblannu rhoddwyr byw. Bydd y tîm trawsblannu yn siarad gyda'r derbynnydd yn gynnar yn y broses, ond mae'n rhaid cynnal profion cychwynnol a rhannu gwybodaeth yn gyntaf. Gall cysylltu'n uniongyrchol yn nyddiau cynnar y broses godi gobeithion y darpar dderbynnydd mewn modd afrealistig.



- Gallai nifer fawr o bobl gysylltu â'r tîm i wneud ymholiadau ac yna, o bosib, ni fyddant yn dymuno, neu ni fyddant yn gallu, bwrw ymlaen am nifer o wahanol resymau. Mae'n bwysig rhannu eich cefndir meddygol a'ch cefndir iechyd meddwl yn llawn yn gynnar yn y broses. Byddwn hefyd yn eich annog i siarad gyda'ch teulu a'ch rhwydweithiau cefnogi yn gynnar oherwydd ei bod yn bosib y bydd gwrthdaro barn p'un a ddylech chi fod yn rhoddwr ai peidio.
- Mae'r broses asesu ar gyfer rhoddi aren yn cymryd oddeutu tri mis. Mae rhoddi aren yn golygu llawdriniaeth sylweddol a disgwylir i roddwyr gymryd o leiaf chwe wythnos o'r gwaith i wella, gan ddibynnu ar natur eu swydd a'u ffordd o fyw.

- Os ydych chi’n ymateb i apêl yn y cyfryngau cymdeithasol, byddwch yn ymwybodol ei bod yn bosib na wnewch chi fyth gyfarfod y derbynnydd.
- Rhodd ddi-dâl yw aren. Mae’n anghyfreithlon elwa’n ariannol o roddi organ yn y Deyrnas Unedig ac ni ddylai rhoddwyr dderbyn unrhyw fath o gydnabyddiaeth ariannol, nac ar unrhyw ffurf arall, cyn nac ar ôl rhoddi organ. Fodd bynnag, gellir hawlio o fewn rheswm am dreuliau ac enillion a gollwyd.

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi edrych ar y wybodaeth ar:**

**www.organdonation.nhs.uk/become-a-living-donor**

cyn cysylltu â’r ganolfan trawsblannu drwy e-bost neu dros y ffôn.

## NODIADAU

I gael rhagor o wybodaeth am roddi organau byw ewch i **www.organdonation.nhs.uk/become-a-living-donor** ffoniwch **0300 123 23 23** neu e-bostiwch **enquiries@nhsbt.nhs.uk**

Yes I donate ORGAN DONATION